

**Ofcom**

sicrhau bod cyfathrebiadau'n  
gweithio i bawb

# Tueddiadau prasio gwasanaethau cyfathrebu yn y DU



Cyhoeddwyd 1 Rhagfyr 2022

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

3

# 1. Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i dueddiadau prisio ar gyfer gwasanaethau llinell dir, ffôn symudol, band eang a theledu preswyl yn y DU. Mae'n ymdrin â'r prisiau y cynigir gwasanaethau unigol ac wedi'u bwndelu ar eu cyfer, a'r hyn y mae cwsmeriaid yn ei dalu am y gwasanaethau hyn.

Mae'r dadansoddiad yn erbyn cefndir o heriau costau byw parhaus, gyda chwyddiant yn cyrraedd ei lefel uchaf mewn mwy na 40 mlynedd yn 2022, a llawer o ddarparwyr blaenllaw yn codi eu prisiau'n uwch na chwyddiant ar gyfer rhai cwsmeriaid presennol. Mae'r posibilrwydd o gynydd mawr pellach mewn prisiau y flwyddyn nesaf i bobl sydd dan glo i'w contractau yn destun pryder, ac mae Ofcom yn credu y dylai darparwyr feddwl yn ofalus a oes modd cyfiawnhau codi prisiau'n sylweddol.

Ar y cyfan, rydym wedi darganfod bod yna fargeinion gwerth da am arian ar gael o hyd i'r rhai sy'n siopa o gwmpas, ond mae rhai gwasanaethau wedi mynd yn ddrutach. Mae dewis yn y farchnad, a gall llawer o gwsmeriaid arbed arian drwy newid i ddarparwr newydd neu gyd-drafod gyda'u darparwr presennol.

Mae gan Ofcom raglen waith sefydledig i helpu cwsmeriaid i gael bargeinion gwell a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, gan gynnwys talu pris teg am eu gwasanaethau. Rydym eisoes wedi cymryd camau i helpu pobl i siopa o gwmpas yn hyderus, gwneud dewisiadau gwybodus, a chael bargaen deg, gan gynnwys rheolau newydd am yr wybodaeth y mae'n rhaid i ddarparwyr ei rhoi i gwsmeriaid sy'n cofrestru am wasanaethau y mae eu prisiau'n codi'n unol â chwyddiant; daeth y rhain i rym ym mis Mehefin 2022.

Ym mis Medi fe wnaethom ailddatgan ein galwad i ddarparwyr nad ydynt yn cynnig tariff cymdeithasol i wneud hynny, ac i ddarparwyr wneud mwy i hyrwyddo'r tariffau hyn i ddefnyddwyr sy'n hawlio budd-daliadau'r llywodraeth a'r rhai sydd ag incwm cartref isel. Ochr yn ochr â hyn, bu i ni gyhoeddi diweddariad hefyd i'n [canllaw trin cwsmeriaid yn deg](#) o ran y gefnogaeth yr ydym yn disgwyl i ddarparwyr ei chynnig i gwsmeriaid sydd mewn dyled neu'n cael trafferth talu.

Er i ni gynnwys rhywfaint o ddata gwariant cwsmeriaid presennol, a gasglwyd gan ddarparwyr cyfathrebu i'w ddefnyddio yn yr adroddiad hwn, mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata tariffau h.y. y prisiau sydd ar gael i gwsmeriaid newydd ar wefannau darparwyr. Cyfeirir at y prisiau cwsmeriaid newydd hyn weithiau fel prisiau "llyfr blaen" o'i gymharu â'r prisiau "llyfr cefn" a godir ar gwsmeriaid presennol.

Mae'r rhan fwyaf o'r data a gyflwynir wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio [ffigurau Mynegai Prisiau Defnyddwyr \(CPI\) y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ONS\)](#). Mae hyn yn gweddu i'r ffordd yr ydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau mewn adroddiadau blaenorol.

Fodd bynnag, drwy ddefnyddio prisiau termau real, cyflwynir y ffigurau mewn ffordd sy'n dileu effaith chwyddiant uchel ac mae'n bosib y bydd gwneud hyn yn cuddio cynnydd mewn prisiau sy'n sylweddol ond yn is na lefelau chwyddiant. Er enghraifft, byddai cynnydd enwol mawr (heb ei addasu) ym mhris gwasanaeth (a hynny ddim yn ganlyniad da i ddefnyddwyr, yn enwedig ar adeg pan fo cyllidebau cartref o dan bwysau) yn ymddangos fel gostyngiad bach mewn termau real (wedi'i addasu) pe bai'r cynnydd enwol yn is na chyfraddau chwyddiant sy'n cael eu profi ar hyn o bryd.

Rydym wedi cynnwys ffigurau real ac enwol mewn rhai o'r siartiau yn yr adroddiad hwn ac wedi eu hychwanegu at [ddangosfwrdd rhyngweithiol](#) yr ydym wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Ein canfyddiadau

### Yn gyffredinol:

**Golygodd fformiwlâu prisiau chwyddiant a mwy fod rhai cwsmeriaid yn profi cynnydd mawr mewn prisiau yn 2022.** Mae llawer o ddarparwyr telathrebu sefydlog a symudol mwyaf y DU wedi cyflwyno cynnydd chwyddiant a mwy mewn prisiau blynyddol (gan amlaf, y gyfradd CPI ynghyd â 3.9% wedi'i chymhwyso yng ngwanwyn 2022), ac o ganlyniad i'r lefelau chwyddiant annormal o uchel yn 2022 roedd rhai cwsmeriaid presennol yn wynebu cynnydd o dros 10% yn eu prisiau. Mae'n bosib y bydd prisiau mewn-contract gysylltiedig â chwyddiant pellach yn digwydd yng ngwanwyn 2023 os yw darparwyr yn dewis cymhwyso nhw. Yn ôl ymchwil gan Ofcom roedd tua thraean o aelwydydd y DU (cyfanswm o fwy na 9 miliwn) yn ei chael hi'n anodd fforddio eu gwasanaethau cyfathrebu ym mis Hydref 2022.

**Mae'r prisiau sydd ar gael ar gyfer contractau newydd yn 2022 wedi cael eu heffeithio'n llai gan bwysau chwyddiant.** Roedd cynnydd termau real mewn prisiau cwsmer newydd cyfartalog ar gyfer bwndeli cyflym iawn a gwibgyswllt dau wasanaeth yn 2021 pan gyflwynodd rhai darparwyr gynnydd chwyddiant a mwy blynyddol mewn prisiau ar gyfer cwsmeriaid presennol. Ar ôl hynny dychwelodd prisiau i'r lefelau blaenorol. Pan gyflwynwyd cynnydd tebyg mewn prisiau cwsmer presennol yn 2022, gostyngodd prisiau cwsmer newydd ar gyfer bwndeli band eang safonol a cyflym iawn dau wasanaeth mewn termau real, ac roedd y cynnydd ar gyfer gwasanaethau gwibgyswllt yn llawer llai nag yn 2021. Yn nhermau enwol cododd pris pob un o'r tri yn 2022, ond roedd y cynnydd yn is o lawer nag yn 2021.

### Bwndeli a band eang:

**Mae prynu bwndeli yn hytrach na gwasanaethau unigol yn parhau i fod yn rhatach i'r rhan fwyaf o bobl.** Dengys ein dadansoddiad o 'fasgedi' nodweddiadol o wasanaethau cyfathrebu a brynir gan aelwydydd y gallai'r rhai sydd â chysylltiad band eang sefydlog arbed rhwng 9% a 39% wrth brynu gwasanaethau wedi'u bwndelu. Yr eithriadau yw'r rhai nad ydynt ond angen gwasanaethau llinell dir a ffôn symudol; Mae hyn oherwydd eu bod yn prynu gwasanaeth nad oes ei angen arnynt (band eang sefydlog) ac na allant gyrchu prisiau rhent llinell cost isel.

**Gall llawer o gwsmeriaid arbed arian drwy newid i dariff cymdeithasol ar gyfer band eang sefydlog.** Fodd bynnag, mae diffyg ymwybyddiaeth o hyd o dariffau cymdeithasol ymhlith cwsmeriaid cymwys ac mae'r nifer sy'n manteisio arnynt yn parhau'n isel (3.2% o aelwydydd cymwys ym mis Awst 2022). Mae'r tariffau band eang sefydlog cymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd yn costio rhwng £12 a £20 y mis (llawer llai na chynhyrchion masnachol tebyg). Mae'r rhain yn cynnig mesurau diogelu eraill i ddefnyddwyr gan gynnwys dim cynnydd mewn pris yn ystod y contract na thaliadau terfynu cynnar os yn symud i dariff cymdeithasol eu darparwr presennol.

**Mae'r nifer sy'n manteisio ar fand eang unigol yn cyflymu.** Cymerodd tua 3 miliwn o gartrefi'r DU fand eang unigol (h.y. heb wasanaeth llinell dir) ar ddiwedd mis Mehefin 2022, mwy na dwbl y nifer ddwy flynedd ynghynt. Mae argaeledd cynyddol band eang ffeibr llawn, a darparwyr sy'n cynnig llinellau band eang ffeibr-i'r-cabinet unigol gan ddefnyddio cynhyrchion Openreach cyfanwerthol newydd, yn galluogi llawer o ddefnyddwyr band eang sefydlog i arbed arian drwy beidio â chymryd gwasanaeth llinell dir.

**Gall band eang gwibgyswllt fod yn rhatach gan ddarparwyr llai.** Mae darparwyr rhwydwaith amgen (Altnet) sydd â'u rhwydweithiau ffeibr llawn eu hunain yn cynnig gwasanaethau sy'n rhatach o lawer na'r rhai a gynigir gan ddarparwyr sefydledig. Roedd darparwyr ffeibr llawn llai yn cynnig gwasanaethau band eang 900 Mbit yr eiliad neu 1 Gbit yr eiliad am rhwng £29 a £50 y mis ym mis Hydref 2022, sy'n sylweddol llai na'r £60 y mis a godir am wasanaethau tebyg a gynigir gan y prif ddarparwyr band eang.

#### **Llinell dir:**

**Gostyngodd prisiau llinell dir mewn termau real yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2022.**

Gostyngodd prisiau rhent llinell dir cyfartalog 4% mewn termau real yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2022 (cynnydd o 6% mewn termau enwol) ac roedd gostyngiad mewn prisiau bwndeli galwadau a galwadau allan o'r bwndel mewn termau real yn ystod y cyfnod hwn.

#### **Symudol:**

**Parhaodd prisiau symudol seiliedig ar ddefnydd cyfartalog i ostwng, er gwaethaf cynnydd yn y defnydd o ddata.** Roedd cost fisol cyfartalog gwasanaeth symudol (ac eithrio cost y ffôn), yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog ar draws yr holl ddefnyddwyr symudol yn 2022, 12% yn is mewn termau real na chost basged o wasanaethau symudol yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog yn 2020 (roedd 2% yn is mewn termau enwol). Roedd hyn er gwaethaf cynnydd amcangyfrifedig o 2.1 GB (52%) yn y defnydd misol cyfartalog o ddata. Roedd prisiau symudol y DU yn rhatach yn Ch3 2022 nag yn y pum gwlad gymharu a ddadansoddiwyd gennym - Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Sbaen a'r Unol Daleithiau.

**Mae prisiau cwsmeriaid symudol sy'n defnyddio llai ar gynydd.** Mae hyn oherwydd y niferoedd dirywiol o dariffau symudol SIM yn unig sy'n cynnig lwfansau data isel, ac argaeledd cyfyngedig gwasanaethau rhagdal traddodiadol, sy'n tueddu i fod yn rhatach ar gyfer cwsmeriaid symudol defnydd isel. Dengys ein dadansoddiad y bu cynnydd 13% o flwyddyn i flwyddyn ym mhris gwasanaethau symudol SIM yn unig talu'n fisol sy'n cynnig 1 GB neu lai o ddata cynhwysol y mis (23% mewn termau enwol). Mae'n bosib y gallai llawer o gwsmeriaid ar dariffau defnydd isel arbed arian drwy symud i dariffau defnydd uwch; ar gyfartaledd, roedd tariffau sy'n cynnig llai na 1GB o ddata 20% yn ddrutach na'r rhai sy'n cynnig rhwng 1 GB a 10 GB o ddata.

**Mae tariffau sy'n cynnwys amser awyr a ffôn yn costio mwy na phrynu ffôn yn llwyr.** Roedd tariffau symudol talu'n fisol sy'n cynnwys amser awyr a ffôn (naill ai mewn contract cyfunol neu ddwy ran) yn cyfrif am 43% o'r holl danysgrifiadau symudol yn Ch2 2022. Mae dadansoddiad gan ddefnyddio model prasio Teligen yn dangos ei bod yn rhatach prynu ffôn yn llwyr a'i ddefnyddio gyda chynllun SIM yn unig ar gyfer yr holl gysylltiadau symudol y bu i ni edrych arnynt yn 2022, gan arbed tua £120 ar gyfartaledd dros contract 24 mis.

**Fel arfer mae gwasanaethau symudol rhagdal'u rhatach na thariffau talu'n fisol.** Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau rhagdal bellach yn wasanaethau hybrid sy'n galluogi i gwsmeriaid brynu pecyn gyda galwadau, negeseuon testun a data cynhwysol sydd fel arfer yn dod i ben ar ôl mis. Golygodd argaeledd tariffau hybrid rhad fod prisiau rhagdal'u is ar gyfartaledd na phrisiau talu'n fisol cyfartalog ar gyfer pump o'r chwe chysylltiad symudol a ddefnyddiwyd yn ein dadansoddiad yn 2022. Dim ond y cysylltiad â gwasanaeth 5G sy'n ddrutach.

**Mae taliadau crwydro symudol yr UE wedi dychwelyd.** Mae tri o'r pedwar prif ddarparwr symudol yn y DU a rhai MVNO wedi ail-gyflwyno, neu gyhoeddi cynlluniau i ail-gyflwyno, taliadau i rai cwsmeriaid o'r DU sy'n defnyddio eu ffonau yn yr UE.

### Teledu-drwy-dalu a fideo ar-alw drwy danysgrifiad (SVoD):


Gostyngodd prisiau teledu-drwy-dalu a SVoD mewn termau real yn ystod 2022. Gostyngodd y prisiau rhestr a hyrwyddo amcangyfrifedig cyfartalog wrth gael eu prynu fel rhan o fwndel wedi gostwng yn nhermau real ac enwol yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2022. Gostyngodd prisiau'r rhan fwyaf o'r prif wasanaethau SVoD mewn termau real (ac roeddent yn ddisymud yn nhermau enwol) dros y cyfnod hwn, yr eithriadau oedd Netflix, a gododd ei brisiau ym mis Mawrth 2022, ac Amazon Prime Video, a gododd ei bris ym mis Medi 2022.

## Metrigau allweddol

### Gwasanaethau band eang

*Bwndeli (addaswyd ar gyfer chwyddiant)*

Newid yn y pris rhestr cyfartalog rhwng 2020 a 2022:



### Band eang sefydlog yn unig

Arbedion cyfartalog ar gyfer band eang sefydlog yn unig o'i gymharu â chymryd band eang sefydlog gyda llinell dir ym mis Mehefin 2022: **13%** ar y pris rhestr, **18%** ar y pris hyrwyddo.

### Nifer yr aelwydydd sy'n cymryd band eang yn unig:




Ni wnaeth **68%** o bobl sydd â llinell dir wedi'i chynnwys gyda'u gwasanaeth band eang sefydlog **alwad allan** ym y tri mis cyn mis Mehefin 2022

### Gwasanaethau symudol

*(addaswyd ar gyfer chwyddiant)*

Defnydd symudol cyfartalog a phrisiau ers 2017:



Gostyngodd y premiwm pris am 5G dros wasanaethau 4G o dros **£1.70 y mis** ym mis Hydref 2020 i **4c y mis** ym mis Gorffennaf 2022

### Cwsmeriaid yn newid cyflenwr (ac eithrio wrth symud cartref)

Roedd **21%** o'r boblogaeth wedi newid un neu fwy o wasanaethau llinell dir, symudol, band eang sefydlog neu deledu-drwy-dalu dros y 12 mis diwethaf


### Gwahaniaethau mewn pris

*(addaswyd ar gyfer chwyddiant)*

Mae'r bwlch rhwng y pris hyrwyddo a'r pris rhestr cyfartalog ar gyfer cyflym iawn yn parhau i leihau



### Aelwydydd sy'n cael trafferth fforddio eu gwasanaethau



Mae'r nifer sy'n manteisio ar dariffau band eang cymdeithasol yn isel, **3.2%** yn unig o aelwydydd cymwys ym mis Awst 2022